

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 9 Gorffennaf 2018 am 7:30p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, Gavin Harris, Menna Jones, Ian Lewney, Anne Roberts a Dave Snape.

14. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorydd Emrys Wynne.

15. ETHOL CADEIRYDD

Cynigiwyd ac eiliwyd y Cyngorydd Gavin Harris fel Cadeirydd y Pwyllgor, a chytunwyd gyda hyn yn unfrydol.

16. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

17. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *cadarnhau bod y cofnodion a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2018 yn gywir.*

18. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

19. DYDDIAU PARCIO AM DDIM

Dywedodd y Clerc fod Cyngor Sir Ddinbych wedi'i hysbysu mai pris diwrnod parcio am ddim ychwanegol fyddai £350, felly £700 am ddau. Gofynnodd i'r aelodau gadarnhau dyddiadau'r pedwar diwrnod parico am ddim a phenderfynu a oeddyn am gael diwrnodau ychwanegol.

PENDERFYNWYD: *dewis dydd Sadwrn, 8 Medi – diwrnod cyntaf y penwythnos Drysau Agored a'r pedwar dydd Sadwrn ym mis Rhagfyr h.y. 1, 8, 15 a 22 Rhagfyr a sicrhau cyhoedduswydd i'r ffaith bod Cyngor Tref Rhuthun yn talu am ddiwrnod parcio am ddim ychwanegol cyn y Nadolig.*

20. LLYTHYRAU GAN DDISGYBLION YSGOL PEN BARRAS

Ystyriodd yr aelodau llythyrau gan ddisgyblion Blwyddyn 2 Ysgol Pen Barras yn nodi eu pryderon am y sbwriel yn y dref a'u bod am weld rhagor o bobl yn cael eu dirwyo am ollwng sbwriel. Awgrymwyd efallai y gellid cynnwys y plant trwy ofyn iddynt ddylunio posteri yn gofyn i bobl beidio â gollwng sbwriel.

PENDERFYNWYD: *anfon llythyr yn ôl at y disgyblion i ddiolch iddynt a sôn am y grŵp Tref Taclus.*

21. SEFYDLU GRŴP TREFI TACLUS

Cynigiodd y Cyngorydd Gavin Harris y dylai'r Pwyllgor Amwynderau arwain ar hyn, gyda'r criw i gyfarfod bob pedair wythnos i wella'r dreflun ac ymgysylltu gyda'r gymuned, ac nid codi sbwriel yn unig. Y bwriad yw canolbwyntio ar ardal fechan ar y tro, a gwneud gwahaniaeth gweladwy. Byddai disgwyl i wirfoddolwyr ymrwymo i ddod i chwech o'r 12 sesiwn yn y flwyddyn. Soniwyd y byddai'n rhaid llunio asesiadau risg a chysylltu gyda'r cwmni yswiriant. Awgrymodd aelodau gysylltu gyda'r Sgowntiaid a'r ATC a chael datganiad yn y wasg a chyhoedduswydd trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae £10,000 yng nghyllideb y Cyngor Tref ar gyfer Cae Ddôl, a gan fod y benthychiad wedi'i ad-dalu yn llawn bellach, awgrymodd y Cyngorydd Harris ddefnyddio'r arian hwn a'r £1,500 wedi'i glustnodi ar gyfer meinciau i gael rhywfaint o offer ar gyfer y Grŵp a chael biniau aml-bwrpas newydd yn lle'r biniau baw ci. Hefyd awgrymodd gyflwyno cynllun noddi gan fusnesau, haen efydd, arian ac aur. Cynigiodd gynnal noson lansio nos Fercher, 12 Medi yn y Manorhaus gyda'r sesiwn gyntaf ar 16 Medi.

PENDERFYNWYD: *gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor llawn ynghylch defnyddio'r gyllideb a chynnal noson lansio ar 12 Medi 2018.*

22. TŴR CLOC PEERS

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cyflwr Tŵr y Cloc. Dywedodd aelodau bod hanesydd lleol wedi gweld dogfennau yn yr Archifdy yn dangos bod hwn yn eiddo i'r Cyngor Sir.

PENDERFYNWYD: *ymchwilio i weld pwy sy'n berchen ar y tŵr.*

23. PRIS GOSOD PLANHIGION YN Y PLANWYR

Dywedodd y Clerc fod John Stubbs o Blanhigion Glyndwr yn ymddiheuro nad oedd wedi cael cyfle i ymweld â'r safle i asesu'r hyn oedd ei angen gan ei fod mor brysur yn dyfrio yn ystod y tywydd poeth.

PENDERFYNWYD: *gan fod llwybr troed i'w osod yn y maes parcio i beidio â bwrw ymlaen gyda rhoi planhigion yn y planwyr ar hyn o bryd.*

24. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 10 Medi 2018 am 7:30pm.*